PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Ordinhad 17

# Disgyblu Myfyrwyr

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 2.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

## Ordinhad 17
## Disgyblu Myfyrwyr

1. Bydd y Senedd, trwy reoliad, yn pennu'r weithdrefn i'w dilyn mewn achosion disgyblu myfyrwyr.

2. Dylid darllen yr Ordinhad hwn ar y cyd â Rheoliad 21

3. Caiff yr Ordinhad hwn ei gymhwyso'n gyfartal i bob myfyriwr mewn ffordd sy'n rhydd o ragfarn mewn perthynas ag unrhyw nodwedd warchodedig neu unrhyw ystyriaeth annheg arall, a bydd y camau a gymerir o dan yr Ordinhad hwn yn deg, yn foesegol, yn gymesur ac yn amserol.

4. Bydd gweithdrefn o'r fath yn cynnwys:

   a) hawl y myfyriwr i gael gwybod am y cyhuddiadau yn ei erbyn a'r cosbau posib;

   b) darparu gwybodaeth glir ynghylch sut i gael mynediad at gyngor a chefnogaeth;

   c) hawl y myfyriwr i gael rhybudd rhesymol o unrhyw wrandawiad ac i dderbyn, ymlaen llaw, copïau o'r holl wybodaeth i'w hystyried gan y sawl sy’n gwneud y penderfyniad;

   d) hawl y myfyriwr i wneud sylwadau ysgrifenedig a llafar i'r person neu'r pwyllgor a sefydlwyd o dan y rheoliad i ymdrin â'r achos;

   e) hawl y myfyriwr i ddod â rhywun arall gydag ef/hi, a all siarad ar ei ran;

   f) hawl y myfyriwr i alw a holi tystion;

   g) manylion y cosbau a all gael eu rhoi gan y brifysgol os canfyddir bod y myfyriwr yn euog o dorri rheol; ac

   h) yr hawl i'r myfyriwr apelio yn erbyn y penderfyniad ac unrhyw gosb ddisgyblu a roddir.



Cyhoeddus - Public